CYNLLUN GWERS			
Pwnc	**Uned**	**Gwers**	**Cyfnod allweddol**
Hanes	**3**	**Pwy oedd y Gwrthwynebwyr Cydwybodol?**	**3**

Pwnc: Gwrthwynebwyr cydwybodol

Amcanion:

- Archwilio sut beth oedd bywyd i'r gwrthwynebwyr cydwybodol a gafodd eu hanfon i weithio yn Llyn y Fan Fach
- Darganfod beth ddigwyddodd i wrthwynebwyr cydwybodol ar ôl i'r rhyfel ddod i ben.

Geiriau allweddol:
Y Rhyfel Byd Cyntaf, gwrthwynebydd cydwybodol, gorfodaeth filwrol, gwasanaeth milwrol, Cynllun y Swyddfa Gartref, argae, cyflenwad dŵr.

Cyflwyniad/Deunydd Ysgogi Cychwynnol:	**Amser**
Llun o Lyn y Fan Fach, trafodwch a oes unrhyw ddisgyblion wedi bod i'r safle. Efallai y bydd rhai disgyblion yn gyfarwydd â chwedl Morwyn y Llyn. Nid oes cymaint o bobl yn gyfarwydd â'r ffaith bod argae a gweithfeydd dŵr wedi cael eu hadeiladu yno dan gynllun y Swyddfa Gartref ym 1916.	5 mun

Cyflwynwch y broblem cyflenwad dŵr i Lanelli yn dilyn y PwerBwynt	**Amser**
1. Pam gafodd y gwrthwynebwyr cydwybodol eu trosglwyddo i weithio yn Llyn y Fan Fach? 2. Beth mae'r darlun hwn o gasgliad Mary Walmsley yn dweud wrthoch am yr amodau gwaith a byw yn Llyn y Fan Fach?	10 mun
<u>Gweithgaredd un:</u> Yn dilyn y PwerBwynt, gofynnir i'r disgyblion feddwl yn fwy manwl am ddiwrnod gwrthwynebydd cydwybodol wrth fyw a gweithio yn Llyn y Fan Fach. Dylen nhw lenwi'r siart cylch gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y PwerBwynt. Rhoddir siart cylch i'r disgyblion ei llenwi er mwyn cynrychioli'r awr a dreulir yn y diwrnod gan wrthwynebwyr cydwybodol yn gwneud tasgau penodol. Gall y disgyblion wedyn llenwi siart cylch arall i gynrychioli'r oriau yn eu diwrnod nhw.	15 mun
<u>Trafodaeth ddosbarth</u> – O'i gymharu â'ch diwrnod chi, ydych chi'n credu bod bywyd dyddiol gwrthwynebydd cydwybodol yn galed? Oedd mynd i ryfel ac ymladd yn ddewis gwell?	5 mun
Yn dilyn y PwerBwynt, parhewch i siarad am y rhyfel yn dod i ben a faint o wrthwynebwyr cydwybodol oedd yn credu y bydden nhw'n cael eu rhyddhau'n syth. 3. Pam gymerodd hi mor hir i ryddhau'r gwrthwynebwyr cydwybodol? *(credai nifer na ddylid rhyddhau'r gwrthwynebwyr cydwybodol cyn bod y milwyr yn dychwelyd)* 4. Ydych chi'n credu i'w bywyd fod yr hyn oedd o'r blaen? Eglurwch eich ateb *(Cafodd gwrthwynebwyr cydwybodol eu rhyddhau ond yn araf iawn, chawson nhw ddim eu croesawu gartref, roedd teuluoedd rhai yn amddifad, doedden nhw ddim yn cael pleidleisio, doedden nhw ddim yn cael gwneud rhai swyddi ac roedden nhw'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith arall)* 5. Sut beth oedd yr agweddau tuag at wrthwynebwyr cydwybodol ar ôl y rhyfel? *(Parhaodd yr agweddau tuag at wrthwynebwyr cydwybodol yn elyniaethus - ni*	5 mun

chawsant eu croesawu yn ôl gan gymdeithas ac nid oedden nhw'n gallu parhau â'u bywydau fel yr oedden nhw cyn y rhyfel)	15 mun
Sesiwn lawn: Gorffennwch gyda chrynodeb bras o'r tair gwers ar wrthwynebwyr cydwybodol. Gofynnwch y cwestiwn 'Pe byddai rhyfel heddiw a'ch bod chi'n wynebu'r un penderfyniad; beth fyddech yn ei wneud?' **Gwaith estynedig:** Gall y disgyblion orffen y dan hwn o waith gyda darn o waith asesu ysgrifenedig ar 'Diwrnod ym mywyd gwrthwynebydd cydwybodol'. Dylai'r disgyblion geisio cydymdeimlo â'r dynion a gafodd eu hanfon i weithio yn Llyn y Fan Fach a chynnwys yr holl eiriau allweddol yn eu gwaith.	
Gwahaniaethu: Caiff fframiau ysgrifennu eu darparu ar gyfer dysgwyr ADY ar gyfer y cwestiynau.	
Asesu: Trwy farcio gwaith dosbarth a thrafodaeth ystafell ddosbarth.	
Adnoddau: PwerBwynt Diwrnod ym mywyd gwrthwynebydd cydwybodol – fy niwrnod i. Taflen waith asesu 'diwrnod ym mywyd' Fframiau ysgrifennu 1 a 2.	
Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd: **Rhifedd** – Gall y wers hon gysylltu â rhifedd yn y ffyrdd canlynol: • *Disgyblion yn cynrychioli da gan ddefnyddio siartiau cylch* **Llythrennedd** – Gall y wers hon gysylltu â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol: • *Cyfrannu at drafodaeth grŵp* • *Gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau i ymateb i sylwadau* • *Dewis y prif bwyntiau o destunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w cefnogi.* • *Ysgrifennu cofnod cynhwysfawr o bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau yn glir ac yn briodol at y pwrpas hwn.*	